



BRIFF i AELODAU'R SENEDD

Ni yw Living Streets Cymru, rhan o elusen y DU ar gyfer cerdded bob dydd. Rydym am greu cenedl lle mae cerdded yn ddewis naturiol ar gyfer teithiau lleol bob dydd; yn rhydd o ffyrdd prysur a llygredd, gan leihau'r risg o afiechydon ac arwahanrwydd cymdeithasol y gellir eu hatal. Rydym am sicrhau amgylchedd cerdded gwell ac ysbrydoli pobl o bob cenhedlaeth i fwynhau'r manteision a ddaw yn sgil y weithred syml o gerdded.

Ers dros 90 mlynedd rydym wedi bod yn esiampl ar gyfer cerdded. Yn ein dyddiau cynnar arweiniodd ein hymgyrchu at groesfannau sebra a therfynau cyflymder cyntaf y DU. Nawr mae ein hymgyrchoedd a'n prosiectau lleol yn sicrhau newid gwirioneddol i oresgyn rhwystrau i gerdded ac mae ein mentrau arloesol fel ymgyrch Cerdded i'r Ysgol fwyaf y byd yn annog miliynau o bobl i gerdded. **Bydd y Traciwr Teithio WOW Cerdded i'r Ysgol, sydd eisoes mewn ysgolion ar draws nifer o awdurdodau lleol Cymru, yn rhan allweddol o'r Trefi Peilot 20mya sy'n cael eu cyflwyno ar hyn o bryd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi monitro data a nodi newidiadau mewn teithio llesol i'r ysgol.**

Mae'r rhaglenni rydyn ni'n eu cyflwyno yn y gymuned yn dylanwadu'n uniongyrchol ar newid ymddygiad cadarnhaol mewn teuluoedd, cymudwyr ac oedolion hŷn drwy eu hannog i ddewis teithio llesol ar gyfer eu teithiau dyddiol rheolaidd. Mae ein harbenigedd polisi ac ymchwil yn dwyn ynghyd dystiolaeth o'r materion sy'n bwysig i bobl yng Nghymru, megis cerbydau sy'n goryrru, annibendod strydoedd a pharcio ar balmentydd, gan eich helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ar gyfer eich etholwyr.



Gwerth cerdded

Mae cerdded yn dda i'n meddyliau a'n cyrff ac yn dda i'r mannau lle rydym yn byw. Mae'n ein cysylltu ag eraill, ag addysg, ac â bywyd economaidd a chymdeithasol ac yn rhoi amser rydyn ni mawr ei angen i fyfyrion yn ystod ein dyddiau prysur. Dylai pawb allu dewis bywyd egniol, iach a di-straen heb gar. Ond nid yw hyn yn wir mewn gormod o leoedd.

Mae'r cyhoedd yng Nghymru wedi dweud wrthym mai eu tair problem fwyaf ar gyfer cerdded oedd parcio ar balmentydd, trafnidiaeth gyhoeddus wael a thraffig cyflym neu beryglus (cofnodwyd 68%, 60% a 57% yn y drefn honno)¹. Mae'n siomedig, er gwaethaf y newidiadau cadarnhaol a welsom i amgylchedd ein strydoedd drwy gydol cyfnod y cyfyngiadau symud, wrth i fwy o bobl ddarganfod y llawenydd o gerdded yn lleol, fod lefelau traffig bellach wedi dychwelyd i'r un lefelau ag yr oeddent yn yr wythnosau a'r misoedd cyn i gyfyngiadau Covid ddod i rym², dyma'r amser i sicrhau newid gwirioneddol.

Yng Nghymru, nid yw traean o oedolion yn gwneud unrhyw weithgarwch corfforol o gwbl³. Dim ond un o bob chwech o blant 11-16 mlwydd oed sy'n cyrraedd targed y Prif Swyddog Meddygol o 60 munud o weithgarwch bob dydd³ ac mae gordewdra ymhlith plant yn cynyddu⁴.

Roedd nifer y bobl a ddywedodd eu bod yn teimlo'n unig yng Nghymru yn 84% yn 2019-2020⁵, cyn i gyfyngiadau'r cyfnod clo ddechrau hyd yn oed. Yn 2019, lladdwyd neu anafwyd 227 o bobl yn ddifrifol⁶ ar ffyrdd yng Nghymru, i fyny o 208 yn 2015. Ac amcangyfrifir bod 1,000 i 1,400 o farwolaethau bob blwyddyn i'w priodoli i lygredd aer sy'n cael ei wneud gan bobl⁷.

Mae pandemig COVID-19 wedi amlygu rhwystrau i gerdded wrth i bobl frwydro gyda phalmentydd cul, anwastad, croesfannau anniogel; a niferoedd cynyddol o gerbydau preifat. Mae'r pandemig hefyd wedi tynnu sylw at anghydraddoldebau ac wedi'u gwneud yn waeth. Effeithiwyd yn anghymesur ar rai pobl o dreftadaeth ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar draws rhyngadrannau o incwm isel - sydd eisoes mewn mwy o berygl o lygredd aer. Mae unigedd cymdeithasol pobl hŷn a'r rhai sy'n byw gydag anabledau wedi gwaethygu.

Gallwch helpu i weddnewid hyn drwy addo creu strydoedd gwell y gellir cerdded arnynt.



Sut y gallwch chi helpu

Mae Living Streets Cymru yn galw ar holl Aelodau'r Senedd i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif am ei Rhaglen Lywodraethu newydd yn nhymor y Senedd hon ac i weithio tuag at Gymru lle:

- **Mae pobl ar droed yn teimlo wedi ymlacio ac yn ddiogel.**

Buddsoddi mewn gwelliannau i'r stryd, ailddyrranu gofod ffyrdd i gerdded a beicio, terfyn cyflymder diofyn o 20mya mewn ardaloedd trefol, gwaharddiad ar barcio ar balmentydd a chroesfannau ffordd mwy diogel

- **Mae pobl yn gallu anadlu aer glân.**

Blaenoriaethu'r argyfwng hinsawdd, gweithredu Deddf Aer Glân i Gymru creu cymdogaethau iach gyda llai o geir ar y ffordd, cyflwyno Parthau Aer Glân o amgylch holl ysgolion Cymru, darparu mesurau gwrth-aros a chynllunio ar gyfer mwy o fannau gwyrdd trefol a choridorau gwyrdd lle gall pobl gerdded a beicio, gan gyfrannu at nod o allyriadau di-garbon net yn ein trefi a'n dinasoedd.

- **Mae teuluoedd yn dewis cerdded i'r ysgol ac i'r gwaith.**

Gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer plant sy'n cerdded i'r ysgol ac ar gyfer oedolion sy'n dewis teithio llesol o leiaf deirgwaith yr wythnos. Cynyddu'r buddsoddiad mewn teithio llesol yng Nghymru i o leiaf £20 y pen. Sicrhau bod llwybrau i'r ysgol, gwaith a chanolfannau trafnidiaeth gyhoeddus yn fwy diogel, yn lanach ac yn llai prysur.



Sut allwn ni eich cefnogi chi

Mae Living Streets yn barod i sicrhau bod gennych yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch ar gyfer dadl gadarnhaol ar bob un o'r materion pwysig hyn.

Gallwn roi briffiau i chi cyn dadleuon a digwyddiadau.

Byddwn yn rhannu tystiolaeth ac adnoddau gyda chi a all eich helpu i wneud penderfyniadau gwybodus ar ran eich etholwyr.

Gallwn eich gwahodd i gymryd rhan mewn digwyddiadau a thrafodaethau ar bwysigrwydd cerdded yng Nghymru i'n pobl a'n lleoedd.

Byddwn yn eich cysylltu ag ysgolion yn eich ardal sy'n cymryd rhan yn WOW, ein rhaglen cerdded i'r ysgol a threfnu cyfleoedd i gyfarfod â disgyblion, rhieni ac athrawon i glywed am eu profiadau.

Byddwn yn rhoi gwybod i chi am raglenni yr ydym yn eu rhedeg yn eich ardal ac yn trefnu ymweliadau fel y gallwch weld ein gwaith ar waith.

Ein Maniffesto Cymru ar gyfer Cerdded

Gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion am yr hyn mae Living Streets yn galw amdano a sut y gallwch wneud gwahaniaeth mawr yn nhymor y Senedd hon ar ein gwefan yn [senedd21-manifesto-en.pdf \(livingstreets.org.uk\)](https://www.livingstreets.org.uk/senedd21-manifesto-en.pdf)

I gael rhagor o wybodaeth gallwch gysylltu â wales@livingstreets.org.uk neu ffonio Rhiannon Hardiman, Rheolwr Cymru ar 07714 616589.



References

1. <https://www.livingstreets.org.uk/get-involved/campaign-with-us/senedd-cymru-election-2021>
2. [Transport use during the coronavirus \(COVID-19\) pandemic - GOV.UK \(www.gov.uk\)](https://www.gov.uk)
3. <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-12/consultation-a-clean-air-plan-for-wales.pdf>
4. https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-10/healthy-weight-healthy-wales_0.pdf
5. https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-01/consultation-document_0.pdf
6. <https://stats.wales.gov.wales/Catalogue/Transport/Roads/Road-Accidents/Casualties/numberofcasualties-by-typeofvehicle-severity-date-policeforcearea>
7. <https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2019-12/consultation-a-clean-air-plan-for-wales.pdf>

Ni yw Living Streets, yr elusen ar gyfer cerdded bob dydd. Ein cenhadaeth yw sicrhau amgylchedd cerdded gwell ac ysbrydoli pobl i gerdded mwy.

Swyddfa 128, Llawr 1af, Wellington House, Wellington St, Caerdydd, CF11 9BE

T: 07714 616589 www.livingstreets.org.uk @livingstreets

Mae Living Streets (The Pedestrians' Association) yn Elusen Gofrestredig Rhif 1108448 (Cymru a Lloegr) a SC039808 (Yr Alban). Cwmni Cyfyngedig drwy Warant (Cymru a Lloegr), Rhif Cofrestru 5368409. 2 America Square, Llundain EC3N 2LU.